# ADRODDIAD TERFYNOL AR WERTHUSIAD DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014




Mae'r ddogfen hawdd ei deall hon yn crynhoi holl ganfyddiadau astudiaeth IMPACT.




Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwerthusiad ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Astudiaeth IMPACT ydy'r enw ar y Gwerthusiad.

Cewch ragor o wybodaeth hawdd ei deall am y Ddeddf ar: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/social-services-and-well-being-wales-act-easy-read.pdf



ISBN 978-1-80535-560-1

# Beth ydy Astudiaeth IMPACT?




Roedd Astudiaeth IMPACT yn edrych i weld pa mor dda mae'r Ddeddf wedi bod yng gweithio yng Nghymru.

Fe wnaeth hyn drwy'r 5 egwyddor:



1. Atal



2. Llesiant



3. Llais a Rheolaeth



4. Cyd-gynhyrchu



5. Gweithio’n Aml-Asiantaethol



IS[illegible] 9[illegible]3-[illegible]-80535-[illegible]60-1

Hefyd, fe wnaeth hyn drwy edrych ar 5 grŵp:



1. Defnyddwyr Gwasanaeth



2. Gofalwyr




3. Teuluoedd a Chymunedau

4. Gweithwyr



5. Sefydliadau



ISBN 978-1-80535-560-1

## Beth ydyn ni wedi bod yn ei wneud?




Mae'r adroddiad terfynol hwn yn crynhoi ein holl ganfyddiadau yn astudiaeth IMPACT.

Mae'r adroddiadau eraill ddaeth o astudiaeth IMPACT yn cynnwys:



Fframwaith ar gyfer Newid. Roedd hyn yn help i ddod i ddeall y cysylltiadau rhwng y Ddeddf a'i heffaith ar lesiant a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.



Safbwyntiau'r Gweithlu. Roedd hyn yn help i ddod i ddeall y gwaith y mae pobl yn ei wneud i gyflawni nodau'r Ddeddf.



Roedd safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr am y Ddeddf yn help ni ddod i ddeall eu barn am y Ddeddf.

Roedd hefyd yn ein helpu i ddeall eu disgwyliadau a'u profiad o waith gofal a chynorthwyo dan y Ddeddf.



Fe wnaeth dod â'r holl adroddiadau ynghyd ein helpu i ystyried pa mor dda y mae'r Ddeddf wedi bod yn gweithio yng Nghymru.



ISBN 978-1-80535-560-1

# Pa mor dda mae'r Ddeddf wedi bod yn gweithio yng Nghymru?




Mae defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, a’r gweithlu yn cefnogi holl egwyddorion y Ddeddf.

Mae’r Ddeddf a’i hegwyddorion yn helpu i gefnogi ymarfer a darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol.

1. Llesiant



Mae’r gweithlu'n meddwl fod y nod o gael y gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi llesiant yn rhywbeth cadarnhaol.

Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr hefyd yn ei ystyried fel rhywbeth positif.



2. Atal

Mae sefydliadau wedi datblygu gwahanol fathau o gymorth i helpu i atal problemau rhag cychwyn neu waethygu.



3. Llais a Rheolaeth

Mae taliadau uniongyrchol a gwybodaeth am hawliau yn helpu defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gael llais a rheolaeth.



ISBN 978-1-80535-560-1




4. Cefnogir cydgynhyrchu yn gadarn gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, a’r gweithlu.

Mae ymddiriedaeth, parch, a phartneriaethau rhwng defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, a’r gweithlu yn bwysig



5. Mae gweithio aml-asiantaeth yn helpu ffyrdd newydd o weithio rhwng gweithwyr proffesiynol a sefydliadau

Mae rhannu gwybodaeth, ymddiriedaeth a pherthynas dda yn helpu gweithio aml-asiantaethol da.



Ond mae angen gwneud rhagor i roi'r holl egwyddorion ar waith.

Ystyrir mai taith ydy'r broses o roi'r egwyddorion ar waith.




Mae ein canfyddiadau hefyd yn dangos pwysigrwydd cynnwys y sector gwirfoddol i helpu i gyflawni’r Ddeddf.

Mae angen i'w rôl nhw gael mwy o gydnabyddiaeth.



ISBN 978-1-80535-560-1

## Beth ydy'r heriau ar gyfer gwneud i'r Ddeddf weithio'n dda?





Ers cyflwyno'r Ddeddf, fe fu llawer o heriau.



Yn cynnwys COVID-19, Brexit a'r argyfwng costau byw.

Fe wnaeth heriau fel COVID-19 amharu ar ffocws rhoi'r egwyddorion ar waith



Yn gymysg â heriau eraill fel prinder arian ar gyfer gwasanaethau, mae hyn wedi'i gwneud hi'n anodd gweithredu'r Ddeddf.



Mae hyn wedi golygu yr amharwyd ar y ffyrdd y gobeithiwyd y byddai'r Ddeddf yn sicrhau newid.



Mae pobl wedi gweithio'n galed i geisio goresgyn y cyfan o'r heriau hyn.

Mae llawer o enghreifftiau da a wnaed i barhau i roi'r egwyddorion ar waith.



Ond mae rhai problemau'n aros.



ISBN 978-1-80535-560-1

## Beth mae hyn ein ei olygu?



Dydy'r stori am sut mae’r Ddeddf wedi bod yn gweithio yng Nghymru ddim yn un syml. Mae'n anniben a chymhleth.



Pan gafodd y Ddeddf ei datblygu a’i phasio fel cyfraith ar y dechrau, roedd pobl yn teimlo’n gadarnhaol ynghylch y newid y gallai hon ei wneud.



Pan gyflwynwyd y Ddeddf a’i rhoi ar waith, cafodd y gweithlu brofiadau cadarnhaol a chymysg.



Mwy negyddol oedd barn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am y Ddeddf ar waith.

Yn bennaf, roedd eu profiadau o’r Ddeddf yn rhai o ffaelu cyflawni’r hyn yr oedden nhw ei angen o ran eu gofal a’u cymorth.



ISBN 978-1-80535-560-1

## Beth ydy'n casgliadau ni?




Drwy'r egwyddorion, mae'r Ddeddf yn nodi sut y dylai gwasanaethau cymdeithasol ymddangos i bobl yng Nghymru




Ond mae'r syniad o'r hyn roedd y Ddeddf i fod i'w wneud a phrofiadau pobl o'r Ddeddf yn wahanol

Ni chafodd y gobeithion byddai gofal a chymorth yn cael eu gwella drwy'r Ddeddf eu gwireddu.




Mae hyn wedi golygu bod pobl yn teimlo'n ddiflas nad ydy eu disgwyliadau o'r Ddeddf a'i hegwyddorion wedi'u bodloni.




Dydy'r daith tuag at gyrraedd yr hyn yr oedd y Ddeddf yn bwriadu ei wneud ddim yn gyflawn.

Mae yna waith i'w wneud o hyd.



ISBN 978-1-80535-560-1

**Cysylltwch am ragor o wybodaeth:**




Yr Athro Mark Llewellyn

Prifysgol De Cymru

01443 483070

mark.llewellyn@southwales.ac.uk



ISBN 978-1-80535-560-1